
Robin

Mae ffrind gan Batman, sy'n rhoi help llaw bob amser. Robin yw ffrind Batman.

Mae Batman a Robin yn gofalu am ei gilydd.





Y Batogof

Croeso i'r Batogof! Ogof gyfrinachol yw'r Batogof. Mae'r ogof wedi ei chuddio o dan gartref Batman!



Mae'n llawn arfau a pheiriannau clyfar. Mae beic modur Batman yma. Mae llawer o bethau yma i helpu Batman i drechu'r bobl ddrwg.





Y Batgar

Dyma hoff beth Batman.

Car cyflym iawn yw'r Batgar.




Mae'r Batgar yn gallu saethu at y bobl ddrwg.

Ras

Wyt ti'n gweld lleidr
yn gyrru'n gyflym o'r banc?


Mae'r lleidr wedi dwyn bocs arian!


Mae Batman yn
tanio injan
y Batgar.



bocs arian

Mae Batman yn dal y lleidr!
Mae Batman yn mynd â'r bocs yn
ôl i'r banc.





Y Batawyren

Dyma'r Batawyren.

Awyren gyflym iawn yw'r Batawyren.

Mae Batman yn hedfan y Batawyren dros Ddinas Gotham. Mae'r Batawyren yn helpu Batman i gadw'r ddinas yn ddiogel.


Batman a'r Joker

Mae'r Joker yn ei hofrenydd.
Ond beth mae e'n ei wneud?

Mae'r Joker yn ymosod
ar Ddinas
Gotham!

Dyma Batman yn cyrraedd yn
y Batawyren. Mae e'n saethu at
yr hofrenydd.

Dyna ddiwedd ar
gynllun y Joker!




Catwoman ar ras!

Mae Catwoman wedi dwyn diamwnt! Edrych, Batman! Mae Catwoman yn dianc ar gefn y beic modur!

Dyma Batman yn hedfan draw a thaflu'r Batarang ati.

Mae'r Batarang yn bwrw'r diamwnt i'r llawr.

Da iawn, Batman! Rwyt ti wedi trechu Catwoman!



Robin yn y ffair

Mae tri pherson drwg wedi dal Robin. Mae nhw'n dal Robin ar reid yn y ffair.

Wyt ti'n gallu gweld Robin?

Dyma Batman yn cyrraedd ar ei Batfeic!

Mae Batman yn achub Robin.



Mae pobl Dinas Gotham i gyd yn ddiogel eto.



Geirfa Archarwyr




Batarang
Arf siâp ystlum



Batwisg
Gwisg arbennig sy'n
cadw Batman yn ddiogel



lasŵ
Rhaff a dolen
ar ei phen



saethyn
Rhywbeth sy'n
cael ei saethu



bocs arian
Bocs metal sy'n dal
pethau gwerthfawr